Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Natur a Ni
Nature and Us

# Adroddiad Proses Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni

**Awduron: Y Ganolfan Ymchwil Ymgynghori**

**Paratowyd ar gyfer: Cyfoeth Naturiol Cymru**

**Dyddiad: 20 Ebrill 2023**

# Cynnwys


CRYNODEB GWEITHREDOL ....................................................................................3

1. CYFLWYNIAD ..............................................................................................5

1.1 Natur a Ni .................................................................................................. 5

1.2 Llywodraethu a Throsolwg ......................................................................... 5

1.3 Amcanion y Cynulliad ................................................................................ 6

2. METHODOLEG ...........................................................................................7

2.1 Recriwtio Cyfranogwyr ............................................................................... 7

2.2 Demograffeg y Cyfranogwyr ....................................................................... 8

2.3 Cydgynghori Cyhoeddus ........................................................................... 10

2.4 Cydlunio'r Panel Cynghori ........................................................................ 11

2.5 Cynllun y Cynulliad Dinasyddion .............................................................. 12

2.6 Dadansoddi ac Adrodd .............................................................................. 13

3. GWAITH CYFLAWNI'R CYNULLIAD ..........................................................14

3.1 Cwestiynau Craidd y Cynulliad .................................................................. 14

3.3 Sesiynau'r Cynulliad Dinasyddion .............................................................. 16

3.4 Y Rhestr Dystiolaeth ................................................................................. 18

3.5 Cyfranogiad ............................................................................................... 20

4. CASGLIADAU A'R CAMAU NESAF ...........................................................21

# Crynodeb Gweithredol

Cafodd y Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni ei gomisiynu gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gweledigaeth ar gyfer dyfodol yr amgylchedd naturiol yng Nghymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n gweithredu fel y prif gynghorydd i Lywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag amgylchedd Cymru. Ers 2021, maent wedi bod yn cyflwyno'r rhaglen Natur a Ni[1], sy'n ceisio cynnwys a chlywed gan bobl ledled Cymru am eu barn, eu pryderon a'u gobeithion ar gyfer dyfodol yr amgylchedd naturiol.

Gwnaeth cam cyntaf y rhaglen hon, a gynhaliwyd gan Freshwater ac OB3 Research yn gynnar yn 2022, gynhyrchu cyfoeth o dystiolaeth ar ganfyddiadau pobl o'r amgylchedd naturiol, ei effaith ar eu bywydau, a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol. Tynnodd sylw at yr angen i ymgysylltu ymhellach â phobl ledled Cymru ar y mater hwn – y cafodd y Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni ei gomisiynu i ymdrin ag ef. Mae cynulliad dinasyddion yn dod â sampl cynrychioliadol o boblogaeth at ei gilydd i ystyried tystiolaeth, i ddysgu ac i gydgynghori â'i gilydd[2], gan ei wneud yn offeryn defnyddiol ar gyfer ystyried y dystiolaeth a gynhyrchir o fewn y rhaglen Natur a Ni a chyfrannu at weledigaeth ar gyfer dyfodol yr amgylchedd naturiol yng Nghymru.

Comisiynwyd y Centre for Deliberative Research (y Ganolfan Ymchwil Gydgynghorol) [3] yn y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen), sy'n elusen gofrestredig a'r sefydliad ymchwil gymdeithasol annibynnol a dielw mwyaf yn y DU, i gyflawni'r gwaith hwn. Cefnogwyd y broses hon gan Datblygiadau Egni Gwledig (DEG)[4] – menter gymdeithasol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu economïau di-garbon, lleol ar draws gogledd Cymru – fel hwyluswyr y Gymraeg. Cafodd y broses recriwtio ar gyfer y Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni ei chynnal gan y Sortition Foundation[5] er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys sampl cynrychioliadol o bobl o bob rhan o Gymru.

I gefnogi'r gwaith hwn, cynullwyd panel cynghori gan CNC i helpu i greu'r cwestiynau craidd ar gyfer y cynulliad, llunio'r rhestr dystiolaeth, ac arwain ar gynllun y sesiynau. Cafodd y panel 16 person hwn ei hwyluso gan dîm NatCen drwy dri gweithdy cydlunio dwy awr a gynhaliwyd i gyflawni hyn. Cwestiynau craidd terfynol y cynulliad oedd:

- Sut olwg fydd ar y dyfodol pan fydd pobl a natur yn ffynnu gyda'i gilydd?
- Pa fanteision y byddem yn eu gweld pe bai hyn yn digwydd?
- Beth sydd angen bod yn wahanol i heddiw?

---

[1] https://freshwater.eventscase.com/CY/Natureandus
[2] https://involve.org.uk/resources/methods/citizens-assembly
[3] https://natcen.ac.uk/s/centre-deliberative-research
[4] https://www.deg.wales
[5] https://www.sortitionfoundation.org

- Pa gamau sydd angen i ni yng Nghymru eu cymryd er mwyn cyrraedd dyfodol ffyniannus?

Gwahoddodd Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni 52 aelod o'r cyhoedd – y mynychodd 40 ohonynt bob sesiwn – i gymryd rhan mewn 13 awr o gydgynghori ar draws tair sesiwn.

Yn nodweddiadol, byddai cynulliad dinasyddion yn golygu mwy na 40 awr o gydgynghori fel yr argymhellir gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd[6], ond yn yr achos hwn, oherwydd cwmpas y gwaith, ei rôl yn y rhaglen ehangach, yr adnoddau sydd ar gael, a’r amserlen, rydym wedi addasu’r nodwedd hon. Cadwodd y cynulliad y nodweddion craidd eraill, gan gynnwys sampl gynrychioliadol a bennwyd drwy loteri, ac ystyried tystiolaeth dros sawl diwrnod. Arweiniodd hyn at ganlyniadau pendant. Cynhaliwyd dwy o’r sesiynau hyn ar-lein ac un wyneb yn wyneb (rhannwyd y cyfranogwyr yn grwpiau o 20 i gyfarfod yn Abertawe a Wrecsam). Ar draws sesiynau’r cynulliad bu cyfranogwyr yn ystyried ystod o dystiolaeth yn ymwneud â Chymru a’r amgylchedd naturiol, a’u cefnogodd i ffurfio barn ar yr hyn y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ei flaenoriaethu yn eu gweledigaeth ar gyfer Cymru yn y dyfodol. Daeth y gweithdy olaf i ben gydag ymarferion adeiladu consensws i nodi blaenoriaethau a rennir ar gyfer y weledigaeth hon.

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y broses o gyflawni’r cynulliad hwn, gan gynnwys ystyriaethau dylunio, demograffeg y cyfranogwyr, trosolwg o sesiynau'r cynulliad, tystiolaeth a rennir, ac adborth cyfranogwyr. Mae'n cyd-fynd â'r adroddiad canfyddiadau sy'n rhannu themâu allweddol o'r cydgyngoriadau mewn ymateb i'r cwestiynau craidd, a gweledigaeth ddrafft.

Er mwyn symud y weledigaeth yn ei blaen mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi comisiynu NatCen i gynnal cyfres o drafodaethau grŵp ar-lein gydag aelodau’r cynulliad i adolygu a chytuno ar y datganiadau gweledigaeth drafft. Gwahoddwyd holl aelodau'r cynulliad i gymryd rhan yn y trafodaethau hyn a chymerodd gyfanswm o 19 o bobl ran mewn pedair sesiwn ar-lein, pob un yn cynnwys pedwar neu bump o gyfranogwyr. Cyn mynychu'r trafodaethau hyn, rhannwyd datganiadau drafft o'r weledigaeth gyda chyfranogwyr a gofynnwyd iddynt i ba raddau y maent yn cytuno neu'n anghytuno bod y datganiadau yn adlewyrchu blaenoriaethau aelodau'r cynulliad. Yna, yn ystod y trafodaethau, adolygwyd datganiadau a, lle bo angen, eu diwygio i sicrhau eu bod yn ddarlun o flaenoriaethau'r cynulliad. Mae adroddiad byr o allbynnau'r trafodaethau hyn wedi'i gynnwys yn yr atodiadau.

[6] https://www.oecd.org/gov/innovative-citizen-participation-and-new-democratic-institutions-339306da-en.htm

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Natur a Ni

Mae Natur a Ni yn fenter a sefydlwyd i adeiladu gweledigaeth a rennir ar gyfer dyfodol yr amgylchedd naturiol yng Nghymru ar gyfer 2050. Mae'r rhaglen yn cael ei hwyluso a'i hariannu gan Cyfoeth Naturiol Cymru, corff a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n gweithredu fel y prif gynghorydd i Lywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag amgylchedd Cymru. Wrth wraidd y rhaglen hon mae ymrwymiad i glywed gan bobl ledled Cymru i gefnogi datblygiad gweledigaeth y gellir ei datblygu ar y cyd gan bobl, sefydliadau a Llywodraeth yng Nghymru.

Yn 2022, lansiwyd sgwrs genedlaethol ar ddyfodol yr amgylchedd naturiol fel cam cyntaf y rhaglen Natur a Ni. Cafodd ei hwyluso gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'i chefnogi gan Lywodraeth Cymru. Ymgysylltodd y sgwrs genedlaethol hon â dros 3,000 o ddinasyddion drwy gyfuniad o arolygon, grwpiau ffocws, gweithdai a gweminarau. Amlygodd y sgwrs hon bwysigrwydd *dyfodol* yr amgylchedd naturiol i bobl ledled Cymru, a chynhyrchodd sylfaen dystiolaeth gyfoethog o'u straeon, eu mewnweliadau a'u gobeithion amdano.

Er mwyn adeiladu ar y mewnwelediadau hyn, argymhellodd y Grŵp Cynghori Natur a Ni y dylid cynnull cynulliad dinasyddion fel cam nesaf y rhaglen. Dylai'r cynulliad hwn ystyried y dystiolaeth a gasglwyd hyd yma, a gweithio tuag at greu gweledigaeth ar gyfer dyfodol yr amgylchedd naturiol yng Nghymru. Comisiynwyd y Ganolfan Ymchwil Gydgynghorol yn y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) gan Cyfoeth Naturiol Cymru i gynllunio a hwyluso'r cynulliad dinasyddion hwn. Cefnogwyd y broses hon gan Datblygiadau Egni Gwledig (DEG)[7] – menter gymdeithasol sy'n arbenigo mewn datblygu economïau di-garbon, lleol ar draws gogledd Cymru – fel hwyluswyr y Gymraeg. Cafodd y broses recriwtio ar gyfer y Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni ei chynnal gan y Sortition Foundation[8] er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys sampl cynrychioliadol o bobl o bob rhan o Gymru.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r broses o gyflwyno'r gwasanaeth hwn gan gynnwys prosesau recriwtio a chynllunio. Mae'n cyd-fynd â'r adroddiad canfyddiadau sy'n manylu ar ganlyniadau'r cynulliad a'r weledigaeth ar gyfer 2050.

## 1.2 Llywodraethu a throsolwg

Mae gwaith y rhaglen Natur a Ni yn ehangach yn cael ei oruchwylio gan grŵp cynghori a gafodd ei gynnull gyntaf yn 2021. Gwahoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru y grŵp cynghori hwn i oruchwylio'r cynulliad dinasyddion, ond nodwyd ganddo mai'r peth gorau fyddai sefydlu panel cynghori'r cynulliad dinasyddion ar wahân a allai neilltuo mwy o amser ac adnoddau i ddarparu trosolwg. Yna cafodd y panel hwn ei gynnull i arwain y gwaith

[7] https://www.deg.wales
[8] https://www.sortitionfoundation.org

cynllunio a chyflawni ar gyfer y cynulliad dinasyddion, gan gynnwys creu cwestiynau craidd, llywio’r gwaith cynllunio, a dethol tystiolaeth.

Roedd panel cynghori’r cynulliad dinasyddion yn cynnwys 17 aelod o amrywiaeth o gefndiroedd proffesiynol (llywodraeth, y byd academaidd, elusennau a sefydliadau cynrychioliadol) a chanddynt arbenigedd perthnasol ym meysydd yr hinsawdd, byd natur a chyfranogiad. Roedd yr aelodau hyn yn cynnwys unigolion[9] o: Dŵr Cymru, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB), y Comisiwn Ffermio Bwyd a Chefn Gwlad, Llywodraeth Cymru, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru, FGO, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Lerpwl, Futures Literacy through Narrative (FLiNT), Prifysgol Caerdydd, ac Oasis Caerdydd.

## 1.3 Amcanion y cynulliad

Nod y cynulliad dinasyddion a osodwyd gan y grŵp cynghori Natur a Ni oedd nodi’r blaenoriaethau a rennir gan bobl ledled Cymru ar gyfer dyfodol yr amgylchedd naturiol. Pwysleisiodd y grŵp cynghori hefyd bwysigrwydd sicrhau bod amrywiaeth barn o gymunedau ledled Cymru yn cael ei chlywed yn ystod y broses gyd-gynghori. I gyflawni hyn, gosodwyd tri amcan penodol:

- Ystyried y dystiolaeth ar yr argyfwng hinsawdd a natur, a safbwyntiau’r cyhoedd yr ydym wedi’u casglu hyd yma drwy Natur a Ni.
- Cytuno ar weledigaeth a rennir ar gyfer amgylchedd naturiol Cymru
- Argymell camau y gall y cyhoedd eu cymryd yn awr, a sut y gall sefydliadau eraill (gan gynnwys llywodraeth genedlaethol a lleol, CNC, cyrff cyhoeddus a busnesau) gefnogi’r cam hwn.

Er mwyn sicrhau bod amrywiaeth barn yn cael ei chlywed, cafodd grŵp (gweler Adran 3.2) o 52 o ddinasyddion sy’n gynrychioliadol yn genedlaethol eu recriwtio gan Sortition Foundation[10] – sefydliad nid-er-elw sy'n arbenigo mewn recriwtio pobl drwy loteri, a hynny mewn ffordd sy'n sicrhau bod poblogaeth benodol wedi’i chynrychioli yn gyffredinol.

Cymerodd y dinasyddion hyn ran mewn 13 awr o gydgynghori dros ddau ddiwrnod a hanner, dros dri phenwythnos. Cynhaliwyd tri gweithdy ar-lein ac wyneb yn wyneb, ac roeddent yn cynnwys cyfnodau dysgu, cydgynghori a chreu gweledigaeth lle rhoddwyd yr wybodaeth i gyfranogwyr i’w cefnogi i greu gweledigaeth ar gyfer byd natur ar gyfer 2050.

[9] Gweler Atodiad XX am restr lawn o'r aelodau
[10] https://www.sortitionfoundation.org

# 2. Methodoleg

Mae'r adran hon yn cynnwys manylion samplu a recriwtio cyfranogwyr, egwyddorion cydgynghori a chynulliadau dinasyddion, y broses gyd-lunio â'r panel cynghori a'r dewisiadau cynllunio ar gyfer y cynulliad.

## 2.1 Recriwtio Cyfranogwyr

Comisiynwyd y Sortition Foundation gan Cyfoeth Naturiol Cymru i recriwtio cyfanswm o 52 o ddinasyddion (er mwyn sicrhau bod 50 yn cymryd rhan) a oedd yn cynrychioli poblogaeth Cymru. Dilynodd Cyfoeth Naturiol Cymru yr arferion gorau wrth ddewis maint y sampl hwn er mwyn sicrhau sampl cynrychioliadol sy'n ddigon mawr ond yn parhau i fod yn unol â graddfa'r rhaglen hon[11]. Gwnaethant ddilyn proses recriwtio o'r enw didolaeth, sy'n cynnwys dewis grŵp ar hap o bobl o ardal benodol drwy loteri ac yna creu detholiad haenedig o gyfranogwyr i gyflawni sampl cynrychioliadol[12].

I wneud hyn, dewisodd y Sortition Foundation 15,000 o gyfeiriadau ar hap o Gronfa Ddata'r Post Brenhinol ledled Cymru (sef 300 o gyfeiriadau fesul pob un o'r 52 aelod cynulliad a oedd eu hangen). Anfonwyd llythyr yn y post i bob un o'r cyfeiriadau hyn yn gwahodd trigolion i gofrestru fel darpar aelodau o'r cynulliad dinasyddion. Yn seiliedig ar ddysgu o waith yn y gorffennol, nododd y Sortition Foundation fod pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn tueddu i fod yn llai tebygol o ymateb i wahoddiadau o'r math hwn, felly cafodd y detholiad ar hap ei bwysoli fel a ganlyn: Dewiswyd 80% o'r cyfeiriadau o Gymru gyfan; Dewiswyd 20% o'r cyfeiriadau o ardaloedd mwy difreintiedig Cymru yn benodol [13]. Roedd dinasyddion a oedd wedi cael y llythyr gwahoddiad wedyn yn gallu cysylltu â'r Sortition Foundation i nodi eu diddordeb. Dywedwyd wrth y cyfranogwyr y byddent yn cael £260 mewn cydnabyddiaeth o'u hamser, yn ogystal ag ad-daliad am unrhyw gostau teithio ar gyfer sesiynau wyneb yn wyneb a fynychwyd ganddynt. Cynigiwyd cymorth iddynt fynychu sesiynau hefyd, megis darparu dyfais i'w galluogi i fynychu ar-lein, dongl ar gyfer cysylltiad Wi-Fi, neu gymorth i ofalwyr fynychu sesiynau wyneb yn wyneb.

Er mwyn sicrhau bod y sampl terfynol o 52 person yn gynrychioliadol o'r boblogaeth, gosododd y Sortition Foundation feini prawf samplu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, gan ddefnyddio data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i osod cwotâu ar gyfer dethol (ceir rhagor o fanylion yn Adran 2.3).

Er mwyn helpu i wneud y detholiadau hyn, roedd yn ofynnol i bob dinesydd a oedd wedi nodi diddordeb roi ei gyfeiriad, ei ddyddiad geni, ei rywedd, ei ethnigrwydd, a gwybodaeth am ei alwedigaeth wrth gofrestru ar-lein neu dros y ffôn. Casglodd y Sortition Foundation ddata hefyd ar b'un a oedd cyfranogwyr yn disgrifio'u hunain fel rhai ag anabledd, a pha

---

[11] https://involve.org.uk/resources/knowledge-base/how-do-i-setup-citizens-assembly/3-representative
[12] https://www.sortitionfoundation.org/how
[13] Fel y pennir gan y Mynegai Amddifadedd Lluosog

mor aml yr oeddent yn treulio amser ym myd natur. Mae'r pecyn gwahoddiad a bostiwyd gan y Sortition Foundation, wedi'i gynnwys yn Atodiad Un.

Yna defnyddiodd y Sortition Foundation yr wybodaeth hon i greu "algorithm didolaeth" a ddefnyddiwyd i ddewis y 52 aelod cynulliad ar hap o'r gronfa o gyfranogwyr cymwys er mwyn cyflawni sampl gynrychioliadol.

## 2.2 Demograffeg y cyfranogwyr

At ei gilydd, recriwtiwyd 52 o gyfranogwyr i gymryd rhan yn y cynulliadau er mwyn gwella'r tebygolrwydd y byddai'r targed o 50 yn dechrau'r sesiynau. Cwblhaodd cyfanswm o 45 y gweithdy cyntaf, cwblhaodd 41 yr ail a chwblhaodd 40 bob un o'r tri gweithdy. Mae Tabl 1 yn dangos dadansoddiad llawn o ddemograffeg y 52 o bobl a wahoddwyd i gymryd rhan, a'r rhai a fynychodd bob sesiwn ochr yn ochr â'r targedau gwreiddiol a data poblogaeth Cymru y mae'r targedau yn seiliedig arnynt.

Mae'r tabl yn dangos bod y 52 o bobl a wahoddwyd i gymryd rhan yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru ar draws grwpiau demograffig allweddol. Roedd y 12 cyfranogwr a roddodd y gorau i'r broses o wahanol oedrannau, rhyweddau, ethnigrwydd a lleoliadau, felly roedd y grŵp terfynol o 40 cyfranogwr hefyd yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru yn gyffredinol.

Er mwyn sicrhau cymysgedd o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd, gofynnwyd i gyfranogwyr eu galwedigaeth fel procsi, a gafodd ei grwpio'n bedwar categori economaidd weithgar yn ogystal â dau gategori economaidd anweithgar. Nid oedd hanner y 12 o bobl a roddodd y gorau i'r broses yn rhan o'r llafurlu, felly mae'r 40 cyfranogwr terfynol gorgynrychioli pobl gyflogedig i raddau.

Er mwyn sicrhau bod cymysgedd o gyfranogwyr o wahanol rannau o Gymru, gosodwyd cwotâu ar gyfer chwe rhanbarth Cymreig gwahanol. Roedd y rhai a roddodd y gorau i'r broses yn byw ar draws y rhanbarthau hyn felly roedd y 40 terfynol a gwblhaodd y broses gyfan yn cynrychioli cymysgedd rhanbarthol da.

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd faint o amser yr oeddent yn ei dreulio mewn mannau gwyrdd. I ddewis sampl ar gyfer hyn defnyddiwyd gwybodaeth reoli sy'n deillio o ystadegyn sydd ar ddod o'r Arolwg Pobl a Natur i helpu i feincnodi a dilysu cyfansoddiad y cynulliad dinasyddion.

**Tabl 1. Demograffeg y sampl**

| | Poblogaeth % | Targed gwreiddiol | | Gwahoddwyd | Sesiwn 1 | Sesiwn 2 | Sesiwn 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhywedd** | | | | | | | |
| Gwryw | 49.30% | 26 | 50.00% | 25 | 23 | 21 | 20 |
| Benyw | 50.70% | 26 | 50.00% | 27 | 22 | 20 | 20 |
| **Ethnigrwydd** | | | | | | | |
| Gwyn, Gwyn Cymreig neu Gwyn Prydeinig | 93.70% | 45 | 86.50% | 44 | 40 | 36 | 35 |
| Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig | 2.90% | 3 | 5.80% | 3 | 2 | 2 | 2 |
| Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 0.90% | 1 | 1.90% | 2 | 1 | 1 | 1 |
| Grŵp ethnig cymysg neu luosog | 1.60% | 2 | 3.80% | 2 | 1 | 1 | 1 |
| Grŵp ethnig arall | 0.90% | 1 | 1.90% | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Oedran** | | | | | | | |
| 16-24 | 13.07% | 7 | 13.10% | 6 | 4 | 4 | 5 |
| 25–34 | 15.30% | 8 | 15.30% | 8 | 7 | 7 | 5 |
| 35-44 | 15.00% | 8 | 15.00% | 8 | 8 | 8 | 8 |
| 45-64 | 31.35% | 16 | 31.40% | 16 | 15 | 13 | 13 |
| 65+ | 25.28% | 13 | 25.30% | 14 | 11 | 9 | 9 |
| **Anabledd** | | | | | | | |
| Oes | 22.70% | 12 | 22.70% | 11 | 8 | 7 | 7 |
| Nac oes | 77.30% | 40 | 77.30% | 41 | 37 | 34 | 33 |
| **Daearyddiaeth** | | | | | | | |
| Gwledig | 38.00% | 20 | 38.00% | 19 | 16 | 15 | 15 |
| Trefol | 62.00% | 32 | 62.00% | 33 | 28 | 25 | 24 |
| Dim ateb | | | | | | 1 | 1 |
| **Galwedigaeth** | | | | | | | |
| Ddim yn y llafurlu (arall) | 17.00% | 9 | 17.00% | 9 | 6 | 6 | 6 |
| Rheolwr/ cyfarwyddwr/ gweithiwr proffesiynol | 26.00% | 14 | 26.00% | 14 | 13 | 12 | 12 |
| Gofal / hamdden / gwasanaethau / gwerthu | 9.60% | 5 | 9.60% | 9 | 8 | 7 | 7 |
| Ddim yn y llafurlu (wedi ymddeol) | 25.90% | 13 | 25.90% | 13 | 10 | 8 | 8 |
| Gweinyddol / ysgrifenyddol / masnach fedrus | 11.70% | 6 | 11.70% | 6 | 7 | 7 | 6 |
| Gweithredwr offer neu beiriant / elfennol | 9.80% | 5 | 9.80% | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Daearyddiaeth** | | | | | | | |
| LL / CH | 34% | 18 | 34.0% | 17 | 15 | 14 | 13 |
| SY | 6% | 3 | 6.0% | 4 | 4 | 4 | 4 |
| LD / HR | 6% | 3 | 6.0% | 3 | 3 | 2 | 2 |
| SA | 18% | 9 | 18.0% | 8 | 8 | 7 | 7 |
| CF | 24% | 12 | 24.0% | 13 | 11 | 10 | 10 |
| NP / GL | 12% | 6 | 12.0% | 7 | 4 | 4 | 4 |

## 2.3 Cydgynghori Cyhoeddus


Mae gweithgareddau cydgynghori yn rhoi'r amser, yr wybodaeth a'r amodau trafodol sydd eu hangen ar gyfranogwyr i ymdrin â phwnc yn fanwl, ac fe'u cynhelir fel arfer dros gyfnodau estynedig ac mewn gweithdai lluosog. Darperir deunydd ar bwnc penodol (yr amgylchedd naturiol yng Nghymru yn yr achos hwn), a ddewiswyd oherwydd cydbwysedd a diduedddrwydd, er mwyn sicrhau bod pob un o'r cyfranogwyr yn cael mynediad at yr un wybodaeth i lywio'u barn. Mae hwyluswyr hyfforddedig yn cefnogi cyfranogwyr i drafod a chydgynghori ar yr wybodaeth hon mewn grwpiau bach, a hynny er mwyn ffurfio barn ar bolisïau cymhleth yn y pen draw. Mae'r dulliau hyn yn rhoi mewnwelediad i farn ystyriol pobl ar faterion cymhleth sy'n cael eu gyrru gan werthoedd sy'n aml yn gofyn am gyfaddawdu er mwyn eu datrys.

Ar gyfer y broses gydgynghori hon, dewiswyd cynulliad dinasyddion fel y dull mwyaf priodol oherwydd y pwysigrwydd o sicrhau grŵp cynrychioliadol ac o nodi meysydd cytundeb yn ogystal â gwrthdaro, ac i ysgogi consensws ar flaenoriaethau allweddol ar gyfer yr amgylchedd naturiol i bobl ledled Cymru.

Mae cynulliad dinasyddion yn broses o gyfranogiad gan y cyhoedd sy'n galluogi penderfynwyr i ddeall dewisiadau gwybodus ac ystyriol pobl ar faterion cymhleth[14]. Fel rheol, mae cynulliadau dinasyddion ar faterion hinsawdd a natur yn cymryd rhwng 2.5 ac 14 diwrnod[15] i'w cynnal, gan ystyried cwmpas y dasg, a disgwyliadau o ran allbwn, ac maent yn amrywio o ran maint rhwng tua 40 a 150 o gyfranogwyr[16]. O feddwl am ystyriaeth y cynulliad hwn o'r amgylchedd naturiol, defnyddiwyd egwyddorion cynllunio cynulliadau hinsawdd, sy'n fath o gynulliad dinasyddion sy'n canolbwyntio ar yr argyfwng hinsawdd, fel yr amlinellir gan y Rhwydwaith Gwybodaeth ar Gynulliadau Hinsawdd (KNOCA).

Fel rheol, mae cynulliadau'n dilyn dull tri cham a amlinellir yn Ffigur 1. Y cam cyntaf yw dysgu lle cyflwynir ystod o dystiolaeth i'r cynulliad er mwyn sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn gallu trafod o bod ganddynt fynediad cyfartal at wybodaeth sy'n ddiduedd, yn gytbwys ac wedi'i chyfleu'n glir. Yr ail gam yw cydgynghori, lle caiff cyfranogwyr eu cefnogi drwy drafodaeth wedi'i hwyluso i ddatblygu eu barn a deall profiadau ei gilydd. Yn olaf, mae cynulliadau'n cloi gyda rhyw fath o ganlyniad a rennir – sydd fel rheol wedi'u llywio gan y cwestiynau craidd sydd wedyn yn cyfrannu at allbynnau pellach y mae'r corff comisiynu yn eu datblygu megis argymhellion, cynigion polisi, a gweledigaethau.

[14] https://www.climateassembly.uk/about/citizens-assemblies/
[15] https://knoca.eu/key-features-of-climate-assemblies/
[16] https://knoca.eu/key-features-of-climate-assemblies/




**Ffigur 1.** Dull tri cham o drefnu cynulliadau dinasyddion.

## 2.4 Cydlunio’r Panel Cynghori

Mae cydlunio’n cyfeirio at ffordd o weithio, lle mae pawb mewn grŵp yn cydweithio ar sail gyfartal (rhannu pŵer) i ddod i benderfyniad sy’n gweithio i bawb[17].

Yn unol ag arferion gorau[18], sefydlwyd panel cynghori rhaglen-benodol (y ceir manylion amdano yn Adran 1.2) gyda chylch gorchwyl (gweler Atodiad Dau) er mwyn sicrhau nad CNC yn unig fydd yn berchen ar y gwaith hwn, ond grŵp ehangach o’r rheini sydd ag ymrwymiad ar y cyd i gefnogi’r canlyniadau. Cafodd yr aelodau hyn eu recriwtio gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Er mwyn cytuno ar gwestiynau craidd, adborth ar gynlluniau sesiynau a nodi’r ystod gywir o dystiolaeth ar gyfer y cynulliad dinasyddion, defnyddiodd NatCen offer a dulliau cydlunio i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Phanel Cynghori’r Cynulliad Dinasyddion. Buom yn gweithio gyda'n gilydd dros dair sesiwn dwy awr wedi'u hwyluso ar Zoom.

**Camau’r broses gydlunio.**

- **Sesiwn 1: Y cwestiynau craidd**
- **Sesiwn 2: Llywio tystiolaeth**
- **Sesiwn 3: Cynllun y sesiynau**

Roedd pob un o’r sesiynau yn cynnwys cymysgedd o sesiynau llawn ac ystafelloedd trafod wedi'u hwyluso yn cynnwys hyd at bump o bobl. Canolbwyntiodd y sesiwn gyntaf ar sefydlu cylch gorchwyl ar gyfer y grŵp[19] a chreu'r cwestiynau craidd; yr ail sesiwn ar

[17] https://www.thinklocalactpersonal.org.uk/co-production-in-commissioning-tool/co-production/In-more-detail/what-is-co-production/
[18] https://knoca.eu/guidance/
[19] Gweler Atodiad XX

ystyried a chytuno ar ba dystiolaeth i'w rhannu a'i chyflwyno yn ystod sesiynau'r gwasanaeth; a'r trydydd i brofi a rhoi adborth ar gynllun y sesiynau.

Cafodd y sesiynau hyn eu hwyluso gan NatCen, a ddefnyddiodd Miro[20], sef offeryn cydweithio ar-lein, i gefnogi'r trafodaethau a'r gweithgareddau ac i gasglu data. Cafodd aelodau nad oeddent yn gallu bod yn bresennol eu cefnogi i gyfrannu at fwrdd Miro yn anghydamserol, gan rannu myfyrdodau dros negeseuon e-bost a chymryd rhan mewn galwadau dal i fyny un-i-un ar wahân. Rhwng y sesiynau, rhannodd tîm NatCen ddrafftiau o'r cwestiynau craidd a'r rhestr dystiolaeth er mwyn cael mewnbwn ac adborth, a gafodd ei hadolygu wedyn ar ddechrau'r sesiwn ganlynol.

Adlewyrchir proses ac effaith panel cynghori'r cynulliad dinasyddion drwy gydol y broses o gynllunio a chyflwyno'r cynulliad dinasyddion, a nodir yn Adran 2.5 (Cynllun y cynulliad), Adran 3.1 (Y cwestiynau craidd) ac Adran 3.4 (Y rhestr dystiolaeth).

## 2.5 Cynllun y cynulliad dinasyddion

Roedd Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni yn cynnwys tair sesiwn. Roedd y rhain yn cynnwys dwy sesiwn yn canolbwyntio ar ddysgu a chydgynghori, cyn trydedd sesiwn, sef yr olaf, a oedd â'r nod o ailystyried cyfraniadau gan aelodau'r cynulliad o'r ddwy sesiwn gyntaf er mwyn pennu blaenoriaethau ar gyfer y weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Cynhaliwyd y sesiwn gyntaf a'r drydedd sesiwn ar-lein, a chynhaliwyd yr ail sesiwn wyneb yn wyneb ar draws dau leoliad (Abertawe a Wrecsam). Ceir manylion llawn ar gyfer cynlluniau'r sesiynau yn Adran 3.

Datblygwyd cynlluniau'r sesiynau gan dîm NatCen gyda mewnbwn gan Uwch-gynghorydd Arbenigol y rhaglen Natur a Ni ar sail y cwestiynau craidd a'r rhestr dystiolaeth a luniwyd gan y panel cynghori Natur a Ni. Profwyd offer a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer cynllun terfynol y cynulliad dinasyddion drwy gydol sesiynau'r panel cynghori. Cafwyd adborth gan aelodau'r panel cynghori ar y profiad hwn, yn ogystal ag ar gynllun y cynulliad yn ystod sesiwn olaf y panel cynghori.

Dyma drosolwg o gynllun y cynulliad dinasyddion.

**Dysgu a thrafod**

Gwnaeth cyfranogwyr adolygu tystiolaeth a nodi blaenoriaethau.

Sesiwn 1:

- Blaenoriaethau ar gyfer ffordd o fyw wyrddach
- 5 awr ar-lein

[20] https://miro.com

Sesiwn 2:

- Byw gyda natur a llwybrau ymlaen
- 5 awr wyneb yn wyneb

**Creu gweledigaeth a rennir**

Sesiwn 3:

- Cytuno ar flaenoriaethau
- 3 awr ar-lein

Er mwyn sicrhau cymaint o ymgysylltiad gan y cyfranogwyr â phosibl, gwnaethom gynllunio proses weithredol, a oedd yn amrywio am yn ail rhwng dysgu yn y cynulliad llawn pan rannwyd tystiolaeth drwy siaradwyr ac astudiaethau achos, a thrafodaethau grŵp bach (o ddim mwy nag wyth cyfranogwr ym mhob un), gyda chefnogaeth hwyluswyr. Er mwyn sicrhau trafodaethau cydgynghorol o safon, canolbwyntiodd ein hwyluswyr ar greu amodau deialog archwiliadol mewn cyd-destun parchus. Roedd hyn yn golygu defnyddio iaith eglur, syml i roi arweiniad, cwestiynau agored i gefnogi cyfranogwyr i egluro'u safbwyntiau yn ddyfnach a chreu gofod diogel er mwyn i bawb allu cyfrannu. Mae hwyluso trafodaethau wrth wraidd y broses gydgynghori, ac yn sicrhau bod cyfranogwyr yn arwain, yn sicrhau cyfraniadau teg, gan ysgogi myfyrio.

Defnyddiodd NatCen offer gwneud nodiadau traddodiadol a gweledol i hwyluso natur ddwyieithog y sesiynau a chynyddu hygyrchedd iaith yn ogystal â sicrhau allbynnau creadigol a thraddodiadol. Datblygodd y cymerwr nodiadau gweledol ddelwedd weledol ar gyfer pob sesiwn, a rhennir y rhain yn Atodiad Tri. Ar ôl pob sesiwn, adolygodd tîm NatCen yr atebion i'r cwestiynau craidd hyd at y pwynt hwnnw, gwerthuso dealltwriaeth y cyfranogwyr o ddeunyddiau allweddol, a sicrhau bod mewnwelediadau wedi'u casglu er mwyn nodi meysydd allweddol i adeiladu arnynt.

## 2.6 Dadansoddi ac adrodd

Mae NatCen wedi llunio dau adroddiad yn ystod y prosiect: yr adroddiad proses hwn sy'n amlinellu amcanion, dull a chyflawniad y cynulliad, a'r adroddiad canfyddiadau sy'n manylu ar allbynnau'r cynulliad ac yn cynnwys y datganiadau gweledigaeth terfynol a grëwyd drwy ddadansoddi'r allbynnau hyn.

Mae'r adroddiad proses hwn yn defnyddio tystiolaeth o gofnodion cyfarfodydd, agendâu a byrddau Miro o sesiynau'r panel cynghori a'r cynulliad dinasyddion, allbynnau terfynol y panel cynghori, a nodiadau'r hwyluswyr ar draws y sesiynau.

Mae'r adroddiad canfyddiadau yn defnyddio data a gasglwyd drwy Miro a nodiadau'r hwyluswyr yn ystod y cynulliad. Cafodd dull NatCen ei o ddadansoddi eu gynllunio i nodi

themâu cyffredin i fod yn sylfaen i weledigaeth a rennir. I gyflawni hyn, dadansoddodd tîm NatCen y blaenoriaethau a greodd cyfranogwyr ar Miro drwy broses tri cham:

1. Dyrannwyd pob blaenoriaeth i'r pedwar cwestiwn craidd er mwyn creu darlun o'r hyn y mae cyfranogwyr am ei newid, manteision y newid hwnnw ac yna'r camau uniongyrchol nesaf.

2. Yna defnyddiwyd dull codio anwythol i ddadansoddi'r data hyn mewn ffordd thematig lle rhoddwyd 'cod' sy'n disgrifio prif thema'r ymateb. Er enghraifft, 'iechyd' neu 'trafnidiaeth'.

3. Cynhaliwyd ymarfer clystyru i gyfuno'r codau yn chwe categori gyffredinol. Galluogodd hyn ymchwilwyr NatCen i nodi'r themâu trawsbynciol a oedd yn bresennol mewn ymatebion i'r holl gwestiynau craidd.

Mae'r adroddiad canfyddiadau yn amlinellu'r themâu hyn ac yn cloi gan rannu'r weledigaeth derfynol a luniwyd drwy ddadansoddi'r cwestiynau craidd.

# 3. Gwaith cyflawni'r cynulliad

Mae'r adran hon yn rhannu manylion am sut y cafodd y cwestiynau craidd eu datblygu, yn ogystal â sut y cyflawnwyd y cynulliad, gan gynnwys cofnod o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd. Mae'n cloi gyda chrynodeb o adborth cyfranogwyr ar y profiad o gymryd rhan.

## 3.1 Cwestiynau craidd y cynulliad

Llywiodd y cwestiynau craidd sesiynau tystiolaeth a dysgu'r cynulliad dinasyddion er mwyn sicrhau bod cyfranogwyr yn ystyried y gwahanol agweddau ar sut olwg allai fod ar y dyfodol, yn ogystal â manteision a gofynion dyfodol o'r fath. Sefydlodd y panel cynghori y cwestiynau hyn yn ailadroddol dros dair sesiwn cydlunio. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i greu, adolygu, mireinio a chwblhau'r cwestiynau craidd mewn trafodaethau llawn a grwpiau bach a hwyluswyd gan NatCen. Casglwyd y data gan ddefnyddio Miro.

Yn ail ran y sesiwn gydlunio gyntaf, cynhyrchwyd y cwestiynau craidd drwy'r gweithgaredd 1-2-4. Ymarfer rhyngweithiol yw hwn sydd wedi'i gynllunio i fireinio a blaenoriaethu cwestiynau. Roedd gan bob aelod o'r grŵp bum munud i feddwl ar ei ben ei hun am gwestiynau allweddol, yna, mewn parau mewn ystafelloedd, cawsant bum munud pellach i drafod a blaenoriaethu'r cwestiynau a ddaeth i'r amlwg. Yna cyfunwyd y parau yn grwpiau o bedwar am 15 munud i drafod a blaenoriaethu'r cwestiynau cyfun.

Yna, yn ystod y cyfarfod llawn, cafodd cwestiynau'r grŵp eu clystyru mewn trafodaeth, a'u casglu gan hwylusydd NatCen, ac amlygwyd y themâu cychwynnol allweddol i'r cyfranogwyr. Defnyddiwyd y gweithgaredd clystyru i lunio drafft cychwynnol o'r cwestiynau craidd a gafodd ei rannu ag aelodau'r panel gan dîm NatCen (un cwestiwn cyffredinol a

thri is-gwestiwn). Roedd aelodau'r panel yn gallu adolygu'r cwestiynau drafft cychwynnol drwy ffurflen adborth er mwyn paratoi ar gyfer ail sesiwn y panel cynghori.

Y cwestiynau craidd ar ôl y sesiwn gyntaf oedd:

- Pa ddyfodol ydyn ni ei eisiau i fyd natur ac i ni?
- Pa fanteision ydych chi'n eu gweld o weithredu dros fyd natur?
- Mewn dyfodol lle mae'r weledigaeth wedi'i chyflawni, sut olwg fyddai ar eich bywyd? Sut y gallai fod yn wahanol i heddiw?
- Sut y dylem rannu’r weledigaeth a’i symud ymlaen mewn ffordd sy’n cefnogi ac yn galluogi gweithredu ar y cyd?

Yn ystod yr ail sesiwn gydlunio gyda'r panel cynghori, cafodd yr adborth a gafwyd ar gyfer pob cwestiwn ei gyflwyno i'r grŵp cyfan, gan ei gwneud yn bosibl iddynt drafod ychwanegiadau pellach neu aralleirio. Ar ôl i NatCen ddiwygio'r cwestiynau yn dilyn y sesiwn, cafodd yr ail ddrafft ei rannu â'r cyfranogwyr ar ddechrau'r sesiwn gydlunio olaf. Rhannodd y cyfranogwyr yn ddau grŵp ar Zoom am bum munud ac adolygu'r cwestiynau, gan gofnodi eu diwygiadau ar Miro. Ailgynullodd holl aelodau'r panel mewn cyfarfod llawn i roi adborth ar syniadau ychwanegol a luniwyd gan bob grŵp ac awgrymu'r newidiadau angenrheidiol i'w gwneud i'r cwestiynau terfynol. Daeth y sesiwn i ben gyda phawb yn cytuno bod angen gwneud rhagor o waith ar y cwestiynau craidd.

Y cwestiynau craidd a grëwyd ar ôl yr ail sesiwn gydlunio oedd:

Sut olwg sydd ar y dyfodol pan fydd cymunedau a natur yn ffynnu gyda’i gilydd?

- Pam ei bod hi’n teimlo’n bwysig i chi gyrraedd y dyfodol hwn? neu Pa fanteision ydych chi'n eu gweld pan fydd byd natur a chymunedau'n ffynnu gyda'i gilydd?
- Beth sydd angen bod yn wahanol i heddiw?
- Pa gamau sydd angen i ni eu cymryd i gyrraedd dyfodol ffyniannus gyda’n gilydd? neu Sut y gallwn ni i gyd weithio gyda'n gilydd dros fyd natur?

Cafodd y rhain eu trafod eto yn ystod y sesiwn olaf ac yna’u golygu yn unol ag adborth cyn cael eu rhannu â’r panel cynghori drwy neges e-bost er mwyn cytuno arnynt yn derfynol.

Y cwestiynau craidd terfynol y cytunwyd arnynt oedd:

- **Sut olwg sydd ar y dyfodol pan fydd pobl a natur yn ffynnu gyda’i gilydd?**
    - Beth sydd angen bod yn wahanol i heddiw?
    - Pa fanteision y byddem yn eu gweld pe bai hyn yn digwydd?

- Pa gamau sydd angen i ni yng Nghymru eu cymryd i gyrraedd dyfodol ffyniannus?

## 3.3 Sesiynau'r cynulliad dinasyddion

Gwahoddwyd y cyfranogwyr i gymryd rhan mewn tri gweithdy a gynhaliwyd dros bum wythnos. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys cyfuniad o gasglu tystiolaeth arbenigol yn y cyfarfod llawn er mwyn sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn clywed yr un wybodaeth, ac yna'n trafod y dystiolaeth hon mewn grwpiau llai o chwech i wyth o bobl. Yn ystod pob gweithdy, bu hwyluswyr o'r Ganolfan Ymchwil Gydgynghorol yn NatCen a DEG yn gweithio trwy gyfres o ymarferion gyda chyfranogwyr i gynhyrchu set o bryderon a blaenoriaethau allweddol ar gyfer dyfodol byd natur yng Nghymru. Casglodd yr hwyluswyr gwestiynau hefyd a gafodd eu rhannu wedyn â siaradwyr a'u hateb rhwng sesiynau, ochr yn ochr â dwy sesiwn holi ac ateb gyda siaradwyr yn ystod y sesiynau.

Cafodd y cynulliad ei gyflawni gan dîm o wyth hwylusydd profiadol, yn cynnwys chwech o'r Ganolfan Ymchwil Gydgynghorol, a dau hwylusydd dwyieithog o DEG Cymru. Roedd tanlinellu'r dull hwyluso ar draws y sesiynau yn canolbwyntio ar sicrhau bod cyfranogwyr yn gallu cymryd rhan mewn trafodaethau a'u bod yn hyderus i wneud hynny, gan gynnwys darparu hwyluswyr Cymraeg eu hiaith a'r holl ddeunyddiau ysgrifenedig yn Gymraeg.

Cynhaliwyd y gweithdy cyntaf a'r trydydd ar-lein trwy Zoom, a chynhaliwyd yr ail weithdy wyneb yn wyneb gyda'r cyfranogwyr yn dewis ei fynychu naill ai yn Abertawe neu Wrecsam. Yn ystod y tri gweithdy, clywodd y cyfranogwyr gan amrywiaeth o siaradwyr ac ystyried amrywiaeth o dystiolaeth ar gyflwr presennol byd natur yng Nghymru, ei heriau, a sut y gall pethau newid yn y dyfodol, a nodir y rhain yn Adran 3.4. Yn olaf, gwahoddwyd y cyfranogwyr i ddatblygu gweledigaeth a rennir o sut yr oeddent yn meddwl y gallai Cymru symud ymlaen fel gwlad tra'n cyfyngu ar ddiraddiad parhaus ei hamgylchedd naturiol. Mae'r adran hon yn amlinellu'n fanwl yr ymarferion a strwythur pob sesiwn.

### Gweithdy 1

Canolbwyntiodd y gweithdy cyntaf ar fyd natur a chymdeithas. Ei nod oedd sefydlu dealltwriaeth gyffredin o sut mae'r amgylchedd naturiol yn effeithio ar fywydau pobl yng Nghymru. I ddechrau, cyflwynwyd yr agenda a'r nodau ar gyfer y sesiwn a'r cynulliad ehangach, a dilynwyd hyn gan weithgaredd a oedd yn cefnogi cyfranogwyr i gysylltu â'r cysyniad o safbwynt personol.

Yn dilyn hyn, aeth y cyfranogwyr i gyfres o sesiynau tystiolaeth. Cyn clywed gan siaradwyr, rhannwyd fideo yn cynnwys y canfyddiadau o Gam 1 y prosiect Natur a Ni. Nesaf, cyflwynwyd gwybodaeth i'r cyfranogwyr am bwysigrwydd byd natur mewn bywyd bob dydd, yr offer polisi sydd ar gael ar gyfer newid yn y dyfodol, senarios bywyd dinasyddion Cymru yn byw mewn Cymru ddychmygol yn y dyfodol (a gynhyrchwyd gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru), pryderon allweddol ynghylch yr heriau sy'n wynebu amgylchedd naturiol Cymru, a chyflwr adnoddau

naturiol yng Nghymru. Clywsant hefyd am systemau allweddol bwyd, ynni a thrafnidiaeth a'u perthynas â'r amgylchedd, ac effaith yr amgylchedd naturiol ar iechyd y cyhoedd.

Rhwng pob un o'r sesiynau tystiolaeth, cyfarfu cyfranogwyr mewn ystafelloedd trafod bach wedi'u hwyluso er mwyn codi cwestiynau a thrafod yr hyn yr oeddent wedi'i glywed. Cawsant hefyd sesiwn holi ac ateb gyda chynrychiolydd o CNC.

Yn ystod trafodaeth olaf y diwrnod, cyflwynwyd ymarfer i'r cyfranogwyr lle gwnaethant fyfyrio ar yr wybodaeth yr oeddent wedi'i chlywed yn ystod y gweithdy ac egluro'u barn am yr opsiynau posibl ar gyfer Cymru wrth symud ymlaen. Yna daeth y cyfranogwyr yn ôl i'r sesiwn lawn lle daeth y gweithdy i ben gyda fideo o ddinasyddion Cymreig eraill yn rhannu eu barn am yr argyfwng hinsawdd. Helpodd hyn i greu ymdeimlad o bwrpas a rennir ymhlith y cyfranogwyr, ac fe'i dilynwyd gan un cyfle olaf ar gyfer cael eglurhad drwy gwestiynau.

### Gweithdy 2

Roedd yr ail weithdy, a gynhaliwyd wyneb yn wyneb, yn canolbwyntio ar archwilio'r cysylltiadau a oedd gan gyfranogwyr â'u hamgylcheddau naturiol a sut mae'r amgylchedd yn effeithio ar fywyd yng Nghymru. Dyma oedd y rheswm dros gynnal y gweithdy ar y safle, a'i gynnal yn ardaloedd lleol y cyfranogwyr, sef naill ai Abertawe (ar gyfer cyfranogwyr o Ganolbarth a De Cymru) neu Wrecsam (ar gyfer cyfranogwyr o Ganolbarth a Gogledd Cymru).

Dechreuodd y gweithdai drwy adolygu'r blaenoriaethau allweddol a ddeilliodd o'r gweithdy cyntaf drwy adolygu delweddau graffeg a gynhyrchwyd gan y cymerwr nodiadau gweledol. Er mwyn cefnogi cyfranogwyr i symud i ofod o feddwl am y dyfodol, cynhaliwyd ymarfer lluniadu cydweithredol. Yna gwahoddwyd y cyfranogwyr i rannu'r elfennau allweddol y dylai Cymru eu cael yn y dyfodol, cyn trafod gyda'i gilydd dystiolaeth yn eu cymunedau o gynnydd tuag at y dyfodol gwell hwn.

Canolbwyntiodd ail ran y sesiwn ar ddatblygu cysylltiad cyfranogwyr â byd natur, a'r rôl y mae'n ei chwarae yn eu bywydau er mwyn dychmygu pa rôl y gallai ei chwarae yn eu dyfodol. Er mwyn gwneud hyn, fe wnaethom gymryd rhan mewn gweithgaredd canoli yn gyntaf drwy ymgynnull mewn cylch yn yr awyr agored a gofyn i bob person rannu myfyrdodau ar ei amgylchedd lleol. Yn dilyn hyn, daeth y cyfranogwyr o hyd i fan naill ai y tu allan neu y tu mewn gyda'u grwpiau bach i gymryd rhan mewn cylch adrodd straeon, gyda phob un yn cymryd ei dro i adrodd stori am ei berthynas â byd natur, cyn i stori pob person gael ei hadlewyrchu yn ôl iddo gan berson arall yn y grŵp. Fel grŵp, amlygodd hyn yr amrywiaeth eang o brofiadau a theimladau, a chefnogodd y cyfranogwyr i werthfawrogi'r gwahaniaeth ym mhrofiadau a blaenoriaethau ei gilydd.

Dechreuodd trydedd ran y gweithdy gydag archwiliad llawn i sut y gallai dyfodol amgen, a gyflawnir drwy ddiwygiadau, edrych. Yna gwyliodd y cyfranogwyr fideos yn cynnwys pum astudiaeth achos wahanol o bobl sy'n byw gyda'r amgylchedd naturiol yng Nghymru er mwyn deall y gwahanol fersiynau o'r dyfodol yr oeddent yn eu dychmygu. I gloi,

gwrandawodd y cyfranogwyr ar bum recordiad sain ym mhob grŵp – naw ar y cyfan – o bobl o bob rhan o Gymru yn rhannu eu gweledigaethau ar gyfer y dyfodol. Roedd y recordiadau yn ganlyniad craidd i gam cyntaf y prosiect Natur a Ni ac yn amlygu'r themâu allweddol a oedd yn rhan o ganfyddiadau'r sgwrs genedlaethol.

### Gweithdy 3

Canolbwyntiodd y gweithdy terfynol, a gafodd ei gynnal ar-lein, ar nodi blaenoriaethau a allai fod yn sail i weledigaeth ar gyfer amgylchedd naturiol Cymru yn y dyfodol. Ar y dechrau bu cyfranogwyr yn adlewyrchu themâu o'r ddau weithdy cyntaf pan ofynnwyd iddynt, yng nghyd-destun dyfodol amgen, beth fyddent yn ei adael yn y gorffennol, beth fyddent yn ei ddwyn ymlaen i'r dyfodol, pa wybodaeth yn ystod y gweithdai oedd wedi gwneud iddynt feddwl, a'r hyn, yn ystod y gweithdai, yr oeddent wedi'i fwynhau fwyaf. Yn dilyn hyn, mewn grwpiau bach, ailystyriodd y cyfranogwyr y blaenoriaethau a luniwyd yn ystod y sesiynau blaenorol er mwyn trafod pa un a oeddent yn dal i adlewyrchu barn y grŵp yn gywir.

Yn dilyn hyn, ailgyflwynwyd y cyfranogwyr i senarios dinasyddion mewn Cymru ddychmygol yn y dyfodol 9a gynhyrchwyd gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfofol a iechyd Cyhoeddus Cymru) o'r gweithdy cyntaf er mwyn annog y cyfranogwyr i ofyn i'w hunain beth, mewn dyfodol delfrydol, fyddai'n cael ei gyflawni, pwy fyddai'n elwa ar y camau a gymerir nawr, a pha ganlyniadau fyddai bwysicaf i ddinasyddion Cymru yn y dyfodol. Ar ôl rhannu mewn cyfarfod llawn y trafodaethau a gynhaliwyd yn y grwpiau trafod, dychwelodd y cyfranogwyr i'w grwpiau lle cawsant gofynnwyd iddynt rannu'r syniadau yr oeddent yn eu hoffi fwyaf am eu dyfodol dychmygol ar y cyd.

Yn nhrydedd rhan a rhan olaf y gweithdy, gofynnwyd i'r cyfranogwyr feddwl sut y gallai eu gweledigaethau o Gymru fwy cynaliadwy effeithio ar ymddygiadau heddiw. Yn gyntaf, gofynnwyd iddynt feddwl am hyn yn annibynnol, cyn cyfrannu eu syniadau at drafodaeth gyda phartner, ac yna trafod eu meddyliau mewn grwpiau o bedwar, ac yna yn olaf gyda'u grŵp trafod cyfan (y dechneg 1-2-4 a ddisgrifiwyd yn gynharach). Galluogodd hyn y cyfranogwyr i ddatblygu syniadau ynghylch sut y gellid cyfleu'r weledigaeth hon ar gyfer y dyfodol i eraill a thrwy hynny ysgogi newid mewn ymddygiadau presennol drwy ddyfodol wedi'i ailddychmygu.

## 3.4 Y rhestr dystiolaeth

Mae'r adran ganlynol yn rhestru'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r cyfranogwyr yn ystod pob un o'r tri gweithdy. Roedd y dulliau tystiolaeth yn cynnwys cyflwyniadau byw a chyflwyniadau wedi'u recordio ymlaen llaw gan siaradwyr arbenigol, fideos, graffiau data, a chlipiau sain. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth newydd yng ngweithdy 3, gan fod y gweithdy hwn yn canolbwyntio ar ddwyn ynghyd yr hyn a drafodwyd eisoes yn ystod y gweithdai blaenorol fel y gallai cyfranogwyr nodi blaenoriaethau ar gyfer gweledigaeth ar gyfer y dyfodol ar y sail honno. Fodd bynnag, yn ystod y trydydd gweithdy, siaradodd Jane Davidson, Gweinidog yr Amgylchedd yn Llywodraeth Cymru rhwng 2007-2011, a fu'n allweddol yn

Neddf Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru, i roi sylw i bwysigrwydd y gwaith a’r mentrau eraill sy’n digwydd yng Nghymru y byddai’r gwaith hwn yn eu llywio.

Lluniwyd y rhestr dystiolaeth gan banel cynghori y cynulliad dinasyddion drwy dair sesiwn gydlunio (ceir manylion yn Adran 2.4). I hwyluso hyn, rhannodd tîm NatCen enghreifftiau o dystiolaeth o gynulliadau hinsawdd yn y gorffennol, yn ogystal â blaenoriaethau a oedd wedi dod i’r amlwg o drafodaethau ledled Cymru yng Ngham 1 o brosiect Natur a Ni. Gan adeiladu ar y dystiolaeth a rannwyd, hwylusodd tîm NatCen drafodaethau grwpiau bach lle nododd aelodau'r panel ffynonellau tystiolaeth defnyddiol, darpar gyflwynwyr, ac astudiaethau achos i'w defnyddio fel rhan o broses y cynulliad. Yn dilyn y sesiwn, rhannodd tîm NatCen ddogfen Excel gydweithredol gydag awgrymiadau tystiolaeth hyd yn hyn i aelodau'r panel cynghori ychwanegu ati. Yna adolygwyd y rhestr yn ystod y drydedd sesiwn gynghori, a'r olaf, lle gofynnwyd i'r aelodau gytuno ar restr o dystiolaeth a oedd yn adlewyrchu'r cydbwysedd cywir ar draws proses y cynulliad. Yn dilyn y sesiwn olaf dosbarthodd NatCen restr derfynol y cytunwyd arni drwy e-bost.

### Gweithdy 1

**Tabl 2**. Tystiolaeth a gyflwynwyd yng ngweithdy 1

| **Dull tystiolaeth** | **Ffynhonnell tystiolaeth** | **Amcan** |
|---|---|---|
| Cyflwyniad byw | Steve Ormerod, Prifysgol Caerdydd | Deall pwysigrwydd byd nvatur i'n bywydau bob dydd a'n cysylltiad ag ef |
| Cyflwyniad byw | Marie Brousseau-Navarro, Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru | Deall yr offerynnau polisi ar gyfer y dyfodol |
| Cyflwyniad wedi'i recordio ymlaen llaw | Sharon Thompson, RSPB | Deall yr heriau presennol sy'n wynebu Cymru a chyflwr byd natur heddiw. |
| Cyflwyniad byw | Alex Ioannou, CNC | Deall y rhyngweithiadau rhwng ein bywydau a'r tair system graidd o fwyd, ynni a thrafnidiaeth. |
| Cyflwyniad byw | Nerys Edmonds, Iechyd Cyhoeddus Cymru | Ailedrych ar effeithiau byd natur ar fywyd o ddydd i ddydd o safbwynt iechyd y cyhoedd er mwyn creu dealltwriaeth o effeithiau ehangach ac anghydraddoldebau |
| Fideo | Prosiect Natur a Ni: Cam 1 | Rhannu barn pobl eraill ledled Cymru â’r cyfranogwyr a chreu ymdeimlad o bwrpas a rennir ar gyfer yr ail sesiwn |

### Gweithdy 2

**Tabl 3**. Tystiolaeth a gyflwynwyd yng ngweithdy 2


| **Modd tystiolaeth** | **Ffynhonnell y dystiolaeth** | **Amcan** |
|---|---|---|
| Graff | Tudalen 13, Global Biodiversity Outlook 5, ‘Summary for Policymakers’ | Pwysleisio natur gydgysylltiedig y mater, a'r amrywiaeth o gamau gweithredu sydd eu hangen |

| | | |
|---|---|---|
| | (ysgrifenyddiaeth y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (2020)) | |
| Fideo | Sefydliad Ellen MacArthur | Cyflwyno'r syniad o ddewisiadau amgen cadarnhaol yn y dyfodol trwy'r cysyniad o economïau cylchol |
| Fideo | Synnwyr Bwyd Cymru | Gwneud cyfranogwyr yn ymwybodol o'r amrywiaeth o gamau gweithredu a mentrau sy'n digwydd yng Nghymru i gefnogi dyfodol gwell i'r amgylchedd naturiol |
| Fideo | Gwiwer Werdd | Darparu astudiaeth achos o atebion amgen yng Nghymru |
| Fideo | Cwmpas | Darparu astudiaeth achos o atebion amgen yng Nghymru |
| Fideo (rhan 1)<br>Fideo (rhan 2) | Sustrans | Darparu astudiaeth achos o atebion amgen yng Nghymru |
| Fideo | Jason Lewis | Darparu astudiaeth achos o atebion amgen yng Nghymru |
| Clipiau sain | CNC | I ddechrau paratoi ar gyfer canolbwyntio ar adeiladu gweledigaeth Sesiwn 3 |

## 3.5 Cyfranogiad

### Presenoldeb yn y gweithdy

At ei gilydd, recriwtiwyd 52 o gyfranogwyr (gor-recriwtiad o 2) i gymryd rhan yn y prosiect hwn. Roedd 45 ohonynt yn bresennol yn y gweithdy cyntaf oll. O'r 45 o gyfranogwyr hyn, aeth 27 ohonynt i'r sesiwn gyntaf yn ne Cymru, ac aeth 18 i sesiwn gyntaf gogledd Cymru. Profwyd athreulio gennym rhwng y sesiwn gyntaf a'r ail sesiwn gyda 24 yn bresennol yn ail sesiwn y De, ac 17 yn bresennol yn ail sesiwn y Gogledd. Roedd 40 o gyfranogwyr (23 yn sesiwn y De, ac 17 yn sesiwn y Gogledd) yn bresennol yn y gweithdy terfynol. (Gweler Ffig. 2)




**Ffigur 2.** Cyfraddau presenoldeb yn y gweithdai

### Adborth gan gyfranogwyr

Cynigiodd arolwg a gynhaliwyd ar ôl y gweithdy[21] gyfle i'r cyfranogwyr roi adborth ar eu profiad o gymryd rhan yn y cynulliad. Gwnaeth ychydig llai na hanner (21) o'r cyfranogwyr i gyd gwblhau'r arolwg hwn ac roedd yr adborth a ddarparwyd yn gadarnhaol. O ran y profiad cyffredinol, roedd y mwyafrif (90%) wedi mwynhau'r cynulliadau ac roedd yr ymatebwyr wedi teimlo'n gyfforddus yn eu grwpiau trafod (86%). Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno bod yr wybodaeth a ddarparwyd yn ystod y cynulliadau yn glir ac yn hawdd ei deall, ac roedd 86% o'r ymatebwyr wedi deall amcanion y prosiect gyda 81% yn teimlo'u bod yn wybodus am gyflwr byd natur o ran llesiant a'i gysylltiad â phobl a'u llesiant ar ôl cymryd rhan.

Drwy ymatebion testun agored, nododd rhai o'r cyfranogwyr y byddent wedi hoffi cael mwy o amser i drafod yn eu hystafelloedd trafod. Cafwyd adborth gan rai o'r aelodau eu bod, fel siaradwyr Saesneg, yn cael sgwrs ddwyieithog yn anodd, tra bod adborth hefyd gan un siaradwr Cymraeg y byddai wedi bod yn well cael mwy o gyflwyniadau yn Gymraeg. Roedd hwyluswyr wrth law i arwain y cyfranogwyr drwy'r ymarferion ac adlewyrchwyd hyn mewn adborth yn adrodd bod y gweithdy wedi cael ei redeg yn dda.

# 4. Casgliadau a'r camau nesaf

Daeth y Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni â 40 o bobl ynghyd o bob rhan o Gymru i nodi blaenoriaethau ar gyfer gweledigaeth ar gyfer dyfodol yr amgylchedd naturiol. Cymerodd y dinasyddion hyn ran mewn 13 awr o weithgareddau cydgynghori ar ffurf cynulliad dinasyddion ar draws dau weithdy ar-lein ac un wyneb yn wyneb. Cynullodd Cyfoeth Naturiol Cymru amrywiaeth o randdeiliaid yn panel cynghori i weithio ar ffurf a chynnwys y gweithdai hyn drwy dair sesiwn gydlunio. Comisiynwyd y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) i weithio gyda'r panel cynghori hwn a chynllunio a chyflwyno'r cynulliad dinasyddion.

Yn ystod y cynulliad cafodd y cyfranogwyr wybodaeth am yr amgylchedd naturiol yng Nghymru, ac fe'u cefnogwyd gan hwyluswyr NatCen i roi barn ar sut olwg sydd ar y dyfodol pan fo pobl a natur yn ffynnu gyda'i gilydd. Roedd hyn yn cynnwys cyfres o ymarferion gwahanol lle roedd y cyfranogwyr yn blaenoriaethu'r hyn yr oeddent yn meddwl sydd angen ei newid, manteision y newid hwnnw a pha gamau nesaf sydd angen eu cymryd ar unwaith yng Nghymru er mwyn cyrraedd dyfodol ffyniannus.

Mae'r adroddiad proses hwn wedi manylu ar waith recriwtio, cynllunio a chyflwyno'r cynulliad hwn. Mae adroddiad canfyddiadau ar wahân yn amlinellu allbynnau'r cynulliad, gan gynnwys gweledigaeth derfynol. Bydd y weledigaeth ddrafft hon yn cael ei hadolygu a'i chytuno gan aelodau'r cynulliad drwy gyfres o drafodaethau grŵp bach sydd i'w cynnal ym mis Mehefin 2023. Mae NatCen wedi cael ei gomisiynu i gyflwyno'r trafodaethau grŵp hyn ac i adolygu'r weledigaeth ddrafft mewn ymateb i adborth gan aelodau'r cynulliad.

[21] Gweler Atodiad Tri

Pan fydd y weledigaeth wedi'i chytuno gan aelodau'r cynulliad bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn dechrau ar y gwaith o weithredu'r weledigaeth er mwyn gweithio tuag at ddyfodol lle mae pobl a byd natur yn cydweithio. Rhan allweddol o hyn fydd parhau i gynnwys aelodau'r cynulliad a'r cyhoedd Cymreig ehangach yn y weledigaeth hon.